



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2019 Rhif 1018 (Cy. 178)

2019 No. 1018 (W. 178)

CAFFAEL TIR, CYMRU

**ACQUISITION OF LAND,
WALES**

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a
Thref (Darpariaethau Malltod)
(Cymru) 2019

The Town and Country Planning
(Blight Provisions) (Wales) Order
2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau malltod yn adrannau 149 i 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn galluogi personau sydd â buddiannau penodol mewn categorïau o dir (gan gynnwys tir y mae cynigion cynllunio a chynigion priffyrdd penodol yn effeithio arno) i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol gaffael eu buddiant yn y tir. Mae'r categorïau o dir wedi eu pennu yn Atodlen 13 i'r Ddeddf.

Un o'r buddiannau mewn tir yng Nghymru sy'n gymwys i'w ddiogelu yw buddiant perchenfeddiannydd hereditament pan na fo gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy nag unrhyw swm a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Ystyr "hereditament" yw hereditament perthnasol o fewn ystyr adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Mae'r Gorchymyn hwn yn codi'r terfyn gwerth blynyddol o £34,800 i £36,000 o ran Cymru.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011 wedi ei ddirymu.

Mae asesiad effaith wedi ei lunio mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Mae copïau ar gael oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The blight notice provisions in sections 149 to 171 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") enable persons holding certain interests in categories of land (including land affected by certain planning and highway proposals) to require the appropriate authority to acquire their interest in the land. The categories of land are specified in Schedule 13 to the Act.

One of the interests in land in Wales which qualifies for protection is an interest of an owner-occupier of a hereditament where the annual value of the hereditament does not exceed such amount as may be prescribed by the Welsh Ministers. "Hereditament" means a relevant hereditament within the meaning of section 64(4)(a) to (c) of the Local Government Finance Act 1988.

This Order increases the annual value limit from £34,800 to £36,000 in relation to Wales.

The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2011 is revoked.

An impact assessment has been prepared in relation to this Order. Copies are available from the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2019 Rhif 1018 (Cy. 178)

2019 No. 1018 (W. 178)

CAFFAEL TIR, CYMRU

**ACQUISITION OF LAND,
WALES**

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a
Thref (Darpariaethau Malltod)
(Cymru) 2019

The Town and Country Planning
(Blight Provisions) (Wales) Order
2019

Gwnaed 11 Mehefin 2019

Made 11 June 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 13 Mehefin 2019

Laid before the National Assembly for Wales
13 June 2019

Yn dod i rym 5 Gorffennaf 2019

Coming into force 5 July 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 149(3)(a) and 333(7) of the Town and Country Planning Act 1990(1), and now vested in them(2) make the following Order:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2019 a daw i rym ar 5 Gorffennaf 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2019 and it comes into force on 5 July 2019.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Terfyn gwerth blynyddol

2. £36,000 yw'r swm a ragnodir at ddibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Limit of annual value

2. The amount prescribed for the purposes of section 149(3)(a) of the Town and Country Planning Act 1990 is £36,000.

(1) 1990 p. 8.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

(1) 1990 c. 8.

(2) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011(1) wedi ei ddirymu.

Revocation

3. The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2011(1) is revoked.

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
11 Mehefin 2019

Minister for Housing and Local Government, one of
the Welsh Ministers
11 June 2019

©Hawlfraint y Goron 2019

© Crown copyright 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

W201906131002 06/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/1018>

ISBN 978-0-348-20435-3



9 780348 204353